| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | **26 Medi 2014** |
| **ENW** | **Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** |
| **PWRPAS** | **I roi gwybod i'r Pwyllgor am yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r Cynllun** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod camau'n cael eu cymryd i:**<br>• **gael cymeradwyaeth y ddau Gyngor i'r amserlen ddiwygiedig,**<br>• **diwygio'r Cytundeb Cyflawni i adlewyrchu'r amserlen ddiwygiedig a'i yrru i Lywodraeth Cymru am ei gefnogaeth yn unol â'r Rheoliadau.** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cynllunio (Polisi) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn** |

## 1. Y cefndir

1.1 Mae'r Cytundeb Cyflawni (CC) yn dweud sut fydd y ddau Gyngor yn mynd trwy'r broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei gwblhau a phryd a sut fydd cymunedau'n gallu cyfrannu i'r gwaith. Fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd gymeradwyo'r CC diwygiedig ym mis Hydref 2013 a mis Rhagfyr 2013, yn y drefn honno. Fe gafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gefnogi ganddo ym mis Ionawr 2014. Cafodd y CC ei gyhoeddi yn ystod mis Ionawr 2014 a gellir ei weld oddi ar y tudalennau gwe ganlynol:

http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1216/Cytundeb_Cyflawni_Diwygiedig_Rhagfyr_2013.pdf

http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/02/10/n/t/v/Cytundeb-Cyflawni-Diwygiedig-Rhagfyr-2013.pdf

1.2 Er bod llawer iawn o waith wedi cael ei wneud mae hi'n amlwg nad ellir cadw'n union at yr amser a welir yn y CC ar gyfer paratoi'r fersiwn llawn o'r CDLl ar y Cyd, sef y Cynllun Adnau.

1.3 Mae'r CC cyfredol yn rhagweld y byddai'r ddau Gyngor mewn sefyllfa i gymeradwyo'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus statudol rhwng Mai a Mehefin 2014.

1.4 Mae rhan nesaf yr adroddiad yma'n rhoi manylion am yr amserlen ddiwygiedig, y drefn adrodd i'r Pwyllgorau perthnasol a pha gamau rydym am gymryd i godi ymwybyddiaeth am yr amserlen ddiwygiedig a datblygiad y Cynllun Adnau cyn iddo fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

1.5 Mae gorfod adrodd am lithriad yn yr amserlen yn siomedig. Dim ond ychydig o resymau sydd du cefn i'r llithriad. Ar ben eu hunain ni fyddent yn cael fawr o effaith ar yr amserlen. Gyda'i gilydd maent wedi arwain at yr angen am fwy o amser i wneud yn siŵr fod Cynllun Adnau 'cadarn' yn cael ei baratoi. Mae Atodiad 1 yn rhoi'r rhesymau sydd du cefn i'r llithriad.

## 2 Y Cynnig

2.1 Mae Tabl 1 isod, sydd wedi cael ei dynnu allan o ran 3.3.1 o'r CC 2013, yn dangos yr amserlen gyfredol ac amserlen ddiwygiedig. Mae'r newidiadau yn yr amserlen wedi cael eu hamlygu mewn print bras yng ngholofn olaf y tabl.

2.2 Fe ragwelir y byddwn yn cyrraedd y cyfnod ymgynghori statudol am y Cynllun Adnau (cam 6 yn y Tabl) ym mis Chwefror/ Mawrth 2015 ar ôl cael cymeradwyaeth y ddau Gyngor. Rhagwelir y byddwn yn cyrraedd y cam mabwysiadu cyn diwedd Rhagfyr 2016. 'Roedd yr amserlen gyfredol wedi rhoi mwy na digon o amser i gael dogfennau cefndir yn eu lle i'w cyflwyno i'r Llywodraeth. Mae llawer o'r dogfennau hynny yn eu lle'n barod ac mae'r rhaglen i gael y gweddill yn barod yn ei le eisoes. Dim ond adendwm i rai o'r dogfennau gwreiddiol fydd ei angen er mwyn cofnodi tystiolaeth fwy diweddar. Mae'r amserlen a welir yng ngholofn olaf Tabl 1 yn ddigonol i wneud hynny.

**Tabl 1 Amserlen paratoi'r CDLl ar y Cyd cyfredol a diwygiedig**

| Cam yn y broses paratoi | | Amserlen | Amserlen ddiwygiedig |
|---|---|---|---|
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol (*Rheoliad 5 – 10)* | Ionawr – Tachwedd 2011 | Ionawr – Tachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu'r sail tystiolaeth a'i ddatblygu | Gorffennaf 2010 – Hydref 2012 | Gorffennaf 2010 – Hydref 2012 |
| 3. | Cyfranogiad Cyn- adneuo – paratoi'r dogfennau cyn-adneuo a fydd yn amlinellu'r prif amcanion | Ionawr 2011 –Hydref 2012 | Ionawr 2011 –Hydref 2012 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a'r hoff strategaeth (*Rheoliad 14).* Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLl ar y Cyd | | |
| 4. | Ymgynghori Cyn-adneuo – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliad 15*). Ymgynghoriad ffurfiol am y dogfennau cyn-adneuo a'r adroddiad asesiad cynaladwyedd | Mai – Mehefin 2013 | Mai – Mehefin 2013 |
| 5. | Cyfranogiad – datblygu'r sail tystiolaeth ymhellach a pharatoi CDLl ar y Cyd Adneuo (cynllun drafft llawn) a fydd wedi selio ar y sail dystiolaeth, sy'n cynnwys yr ymateb a gafwyd i'r dogfennau cyn-adneuo | Gorffennaf 2013 - Mawrth 2014 | Gorffennaf 2013 - **Rhagfyr 2014** |
| 6. | Rhoi'r CDLl ar y Cyd a dogfennau cysylltiol ar adnau – cyfnod ymgynghori 6 wythnos (*Rheoliad 17*) | Mai – Mehefin 2014 | **Chwefror – Mawrth 2015** |
| | Amserlen ddangosol | | |
| 7. | Ystyried sylwadau am y CDLl ar y Cyd Adnau (*Rheoliad 18 & 19)* | Gorffennaf 2014 – Ionawr 2015 | **Ebrill 2015 – Tachwedd 2015** |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau am safleoedd amgen, ymgynghori amdanynt – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliadau 20 & 21)* | Medi – Hydref 2014 | **Mehefin - Gorffennaf 2015** |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (*Rheoliad 22)* | Chwefror 2015 | **Rhagfyr 2015** |
| 10. | Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (*Rheoliad 23)* | Mehefin 2015 | **Ebrill 2016** |
| 11. | Cyhoeddiad Adroddiad yr Arolygydd (*Rheoliad 24)* | Mawrth 2016 | **Hydref 2016** |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (*Rheoliad 25)* | Mai 2016 | **Rhagfyr 2016** |
| 13. | Monitro ac Adolygu | Adroddiad blynyddol | Adroddiad blynyddol |

2.3 Mae'r tabl nesaf yn cyfeirio at ddyddiadur adrodd i'r Panel, y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, pwyllgorau perthnasol eraill yn ogystal â'r cyfle nesaf i holl Gynghorwyr y ddwy Sir gael gwybod am yr amserlen, y gwaith ymchwil a phrif negeseuon y Cynllun Adnau drafft.

**Tabl 2: Amserlen adrodd i Bwyllgorau a sesiynau codi ymwybyddiaeth I Gynghorwyr y ddwy Sir yn 2014**

| **Dyddiad** | **Cyfarfod** |
|---|---|
| 26/9/14 | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd - adroddiad llywodraethu a chyllideb derfynol a gwybodaeth am yr amserlen ddiwygiedig |
| 17/10/14 | Panel CDLl ar y Cyd - Mapiau cynigion y Cynllun Adnau drafft, Polisi Sipsiwn a Theithwyr, a phrif negeseuon gan y rhanddeiliaid am ddatblygiad y polisïau drafft |
| 16 & 20 & 21/10/14 & un arall i'w gadarnhau | Fforymau Ardal Gwynedd (Cynghorwyr) – Prif negeseuon y Cynllun Adnau |
| 24/10/14 | Fforwm Cynghorwyr Môn - Prif negeseuon y Cynllun Adnau |
| 21/11/14 | Panel CDLl ar y Cyd = targedi a dangosyddion er mwyn monitro'r Cynllun |
| 1/12/14 | Pwyllgor Gwaith CSYM - y Cynllun Adnau drafft i gael cefnogaeth i'w ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus |
| 16/12/14 | Cabinet CG - y Cynllun Adnau drafft i gael cefnogaeth i'w ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus |
| Dyddiad ar gyfer cyfarfod ychwanegol i'w gytuno ar gyfer mis Rhagfyr | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd - y Cynllun Adnau drafft terfynol i gael penderfyniad i'w ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus |

2.4 Diwedd Awst 2014 fe dderbyniodd y cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol a phawb sydd ar y Gofrestr Tir Posib a chronfa data'r Cynllun gopi o rifyn 4 Newyddlen y Cynllun. Mae'r rhifyn yma'n rhoi gwybod am amserlen ddiwygiedig y Cynllun, y gwaith sydd wedi bod yn mynd yn ei flaen ers cyhoeddi'r Hoff Strategaeth a sut i gael gwybod mwy. Gellir gweld y newyddlen ar wefan y ddau Gyngor yn:

http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1244/Newyddlen_Awst_2014__Cymraeg.pdf

http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/08/28/l/y/v/Newyddlen-Awst-2014---Cymraeg.pdf

2.5 Mae'r Arolygiaeth Cynllunio eisoes yn gwybod am yr amserlen ddiwygiedig arfaethedig er mwyn iddynt sicrhau y bydd Arolygydd ar gael ar yr adeg briodol.

## 3 Casgliadau

3.1 Ar sail yr wybodaeth sydd i law mae'n bendant fod angen am ragor o amser i baratoi'r Cynllun Adnau. Mae'r Rheoliadau'n galluogi cynghorau i gytuno ar amserlen ddiwygiedig.

3.2 Yn unol â'r Rheoliadau bydd trefniadau'n cael ei wneud i adrodd i'r ddau Gyngor am yr amserlen ddiwygiedig ac yna gyrru'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig i Lywodraeth Cymru.

## 4 Argymhelliad

4.1 **Bod camau'n cael eu cymryd i:**

- **gael cymeradwyaeth y ddau Gyngor i'r amserlen ddiwygiedig,**
- **diwygio'r Cytundeb Cyflawni i adlewyrchu'r amserlen ddiwygiedig a'i yrru i Lywodraeth Cymru am ei gefnogaeth yn unol â'r Rheoliadau.**